

# Canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwydded amgylcheddol:

## Rhan B6 Gweithgareddau gollwng dŵr a gweithgareddau dŵr daear (gollwng yn y tarddle) pwrpasol newydd

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn i chi lenwi'r ffurflenni. Mae'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar gael ar ein gwefan. Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i gwblhau rhan B6 o'r pecyn ffurflen gais.**

Pan fyddwch yn gweld y term 'cyfeirnod y ddogfen' ar y ffurflen, nodwch gyfeirnodau'r dogfennau ac anfonwch y dogfennau gyda'r ffurflen gais pan fyddwch wedi'i chwblhau. Os byddwch yn cyflwyno dogfennau nad oes eu hangen, nodwch na chânt eu hasesu.

**Sut i gysylltu â ni:** Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r person a'i hanfonodd atoch neu cysylltwch â ni drwy:

Ymholiadau cyffredinol dros y ffôn: 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm).

E-bost: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Gwefan: [www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

**Ble i anfon eich cais:** Gallwch anfon eich cais drwy e-bost neu yn y post. Gallwn brosesu ceisiadau yn gyflymach os byddwn yn eu derbyn drwy e-bost (yn electronig). Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i:

E-bost: [canolfanderbyntrwyddedau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:canolfanderbyntrwyddedau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Post: Canolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Cynnwys

1 Yr elifiant - manylion a math

2 Am ba hyd y bydd angen i chi ollwng yr elifiant?

3 Opsiynau gollwng

4 Faint ydych chi am ei ollwng?

5 Gollyngiadau carthion ysbeidiol

6 Sut y caiff yr elifiant ei drin?

7 Beth fydd yn yr elifiant?

8 Trefniadau monitro

9 Cynllun rheoli allyriadau sylweddau nas rheolir gan derfynau allyrru

10 Meini prawf dylunio

11 I ble y bydd yr elifiant yn gollwng?

12 Rhagor o wybodaeth gennych chi

Atodiad 1 - Gollyngiadau i afon ddilanw

Atodiad 2 - Gollyngiadau i afon lanw, ffrwd lanw, aber neu ddyfroedd arfordirol

Atodiad 3 - Gollyngiadau i lyn neu bwl

Atodiad 4 - Gollyngiadau i dir

Atodiad 5 - Gollyngiadau ar dir

Atodiad 6 - Gollyngiadau i ddyfrdwl neu ffynnon

### Beth ydw i'n gwneud cais amdano?

Mae'r cais hwn am drwydded amgylcheddol ar gyfer gweithgaredd gollwng dŵr neu weithgaredd gollwng dŵr daear yn y tarddle pwrpasol. Dylech fod wedi sicrhau bod angen trwydded bwrpasol arnoch ar gyfer eich gweithgareddau yn hytrach nag eithriad neu drwydded rheolau safonol cyn cwblhau'r ffurflen hon.

### Pa ffurflenni sydd angen i mi eu cwblhau?

Dylech fod wedi cwblhau rhan A a rhan B2 eisoes. Nawr, mae angen i chi lenwi rhan B6, yn cynnwys unrhyw atodiadau perthnasol, unwaith ar gyfer pob elifiant rydych yn gwneud cais amdano. Os ydych yn gwneud cais am fwy nag un gweithgaredd o'ch safle, bydd y rhain oll yn ffurfio rhan o'ch trwydded amgylcheddol unigol.

### 1 Yr elifiant - manylion a math

**1a** Nodwch ffynhonnell yr elifiant y byddwch yn ei drin a'i ollwng. Er enghraifft, natur y fasnach a gyflawnir ar y safle, neu pa safle sy'n gysylltiedig â'r gwaith trin carthion.

Pan fydd y gollyngiad o waith trin carthion a weithredir gan gwmni dŵr ac sy'n gwasanaethu 'crynodref', rhaid i chi roi enw'r crynodref a'r boblogaeth gyfatebol a wasanaethir gan y gwaith trin. (Ystyr crynodref yw pan fydd poblogaeth yn ddigon crynodedig i ddŵr gwastraff trefol gael ei gasglu a'i drin mewn gwaith trin dŵr gwastraff trefol).

**1b** Enw'r elifiant: Caiff yr enw hwn ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r cais a gellir ei ddefnyddio yn y drwydded i nodi'r elifiant hwn. Os oes gennych fwy nag un elifiant, rhaid i chi sicrhau bod pob enw a ddefnyddiwyd yn wahanol. Er enghraifft, elifiant gwaith trin carthion pecynnol, elifiant tanc septig, dŵr oeri, draenio safle ac ati.

**1c** Ticiwch y blwch os yw hwn yn ollyngiad o argae, cored neu lifddor ('gollyngiad cronfa ddŵr') o dan Atodlen 21 o ystyr gweithgaredd gollwng dŵr yn ôl yr EPR.

#### **1d Pa elifiant neu elifion ydych chi'n gwneud cais amdanynt?**

Ar gyfer pob gollyngiad unigol, dewiswch eich math o elifiant o Dabl 1 a chwblhewch y cwestiynau a nodir yn y tabl.

#### **Beth mae'r mathau o elifion yn ei gwmpasu?**

- Elifiant masnach (cyfaint hysbys): yn cynnwys elifion proses, dyfroedd golchi, dyfroedd oeri cylch cyfyng, gwagio boeler, hidlo drwy adlfiad, dŵr mwyngloddiau wedi'i bwmpio i Elifiant masnach (yn dibynnu ar lawiad): draenio safle
- Elifiant masnach (dŵr a dynnwyd a ddychwelir): yn cynnwys ffermydd pysgod, ffermydd berwr dŵr, dŵr oeri a dynnir - dilynwch y categori hwn ar gyfer unrhyw ollyngiad o ddŵr ailgylchu sy'n codi o gynlluniau gwres ac oeri o'r ddaear
- Llif storm sefydlog ysbeidiol: carthion wedi eu gwaddodi o waith trin carthion lle ceir elifiant carthion cyfun
- Gorlif carthion cyfun ysbeidiol: carthion llif storm o rwydwaith carthffosiaeth neu a arllwyswyd ym mhen uchaf gwaith trin carthion
- Gorlif brys ysbeidiol: gollyngiad brys o orsaf pwmpio carthion
- Carthion wedi'u trin (cwmni dŵr): gollwng carthffrwd wedi'i thrin o waith trin carthion a weithredir gan ymgymerwr carthffosiaeth
- Carthion domestig wedi'u trin (eiddo preifat): gollwng carthffrwd wedi'i thrin o waith trin carthion a weithredir gan berchennog neu berchenogion preifat (gweler y diffiniad o 'carthion domestig' isod)
- Elifion cymysg (pob cyfaint hysbys): cymysgedd o fwy nag un elifiant masnach (cyfaint hysbys) neu elifiant masnach a charthion domestig wedi'u trin sy'n rhannu cyfleuster trin a man monitro cyffredin
- Elifion cymysg (gydag elfen sy'n dibynnu ar lawiad): cymysgedd o elifion masnach (cyfaint hysbys) neu garthion domestig wedi'u trin (eiddo preifat) ag elifiant masnach (yn dibynnu ar lawiad) sy'n rhannu cyfleuster trin a man monitro cyffredin

#### **Diffiniad o garthion domestig**

Dim ond carthion domestig eu natur yw'r rhain ac ni fyddant yn cynnwys unrhyw elifion masnach (fel y'u diffiniwyd yn Adran 221 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991).

At ddiben y canllaw hwn, ystyr 'carthion domestig' yw carthion o anheddau preswyl a gwasanaethau sy'n deillio'n bennaf o'r system fetaboledd ddynol ac o weithgareddau'r cartref. Mae hyn yn cynnwys dŵr gwastraff o goginio, golchi llestri a golchi dillad mewn gwestai, tafarndai a bwytai sy'n ymwneud â gweithgareddau ar y safleoedd hynny yn unig. Er enghraifft, mae carthion o westy sy'n paratoi prydau bwyd ar gyfer ei westeion ac sy'n golchi ei ddillad gwely ei hun yn cyfrif fel 'carthion domestig'.

Nid yw dŵr gwastraff o safle sy'n paratoi bwyd i'w fwyta rywle arall neu sy'n golchi dillad gwely ar ran unigolyn arall yn cyfrif fel 'carthion domestig'.

## **2 Yr elifiant - am ba hyd y bydd angen i chi ollwng yr elifiant?**

**2a** Rhowch ddyddiad yr hoffech i'r drwydded ar gyfer yr elifiant hwn ddechrau.

Ni allwch ollwng eich elifiant cyn y dyddiad dechrau hwn ar ein trwydded oni fyddwch yn cysylltu â ni ac yn gofyn am newid eich dyddiad dechrau (ei symud ymlaen). Bydd taliadau'n dechrau ar y dyddiad hwn hyd yn oed os nad ydych wedi dechrau gollwng oni fyddwch yn cysylltu â ni i newid (gohirio) y dyddiad dechrau. Defnyddiwch y ffurflen gais Amrywiad Gweinyddol (C0.5) ar gyfer hyn, na chodir ffi ar ei chyfer.

**2b** Os mai dim ond am gyfnod byr rydych yn bwriadu gollwng, dylech nodi'r dyddiad gollwng olaf ond nodwch na ddaw eich trwydded i ben ar y dyddiad hwnnw a bydd angen i chi roi gwybod i ni er mwyn ildio'r drwydded.

**2c** Ar gyfer gollyngiadau tymhorol a fydd ond yn digwydd am ran o'r flwyddyn, nodwch y cyfnod gollwng. Pan fydd gollyngiad yn parhau ar gyfradd is o lawer dros gyfnod, dylech gwblhau'r cwestiwn hwn ac anfon manylion yr amrywiad tymhorol. Er enghraifft, gwersyllfeydd sydd ar gau dros y gaeaf ond sydd â llif gweddilliol o eiddo preswyl ar y safle drwy gydol y flwyddyn.

**2d** Os byddwch yn ateb 'na' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi allu cydymffurfio â'r gofyniad i ollwng ar chwe diwrnod neu lai mewn unrhyw flwyddyn oherwydd bydd hyn yn amod ar gyfer y drwydded. Byddai ond yn berthnasol i brosesau swmp fel gwagio pyllau magu pysgod neu broses a gynlluniwyd i gau safleoedd neu gyfarpar.

### 3 Opsiynau gollwng

Ni fyddwn yn rhoi trwydded gweithgaredd gollwng dŵr neu ddŵr daear ar gyfer gollyngiad o system trin carthion breifat lle mae'n rhesymol cysylltu â'r garthffos fudr gyhoeddus a ddarperir gan eich ymgwymerwr carthffosiaeth (cwmni dŵr) neu garthffos breifat sy'n gysylltiedig â charthffos fudr. Bydd angen i chi wirio cofnodion carthffos gyda'ch ymgwymerwr carthffosiaeth (eich cwmni dŵr lleol fel arfer) a gweld a fyddai'n ymarferol cysylltu ag unrhyw garthffosydd preifat pe na bai carthffos fudr ar gael yn rhwydd.

Rydym hefyd yn disgwyl cysylltu elifion masnach â'r garthffos fudr gyhoeddus, lle y bo'n rhesymol gwneud hynny, ac yn amodol ar gael cydsyniad neu gytundeb elifion masnach gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth.

Os ydych yn bwriadu gollwng o system trin carthion preifat mewn ardal lle yr ymddengys ei bod yn rhesymol gollwng eich elifion mewn carthffos, rhaid i chi, o leiaf, anfon tystiolaeth eich bod wedi cysylltu â'r ymgwymerwr carthffosiaeth, ac anfon ei ymateb ffurfiol atom o ran cysylltiad o dan a98 neu a106 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991. Rhaid i chi anfon y dystiolaeth hon atom gyda'ch cais.

Nid yw diffyg cynhwysedd, neu fodolaeth unrhyw gynlluniau i wella cynhwysedd, yn y garthffos yn rhesymau dilys i ymgwymerwr carthffosiaeth wrthod cysylltiad o dan adran 106 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991. Pan fydd ymgwymerwr carthffosiaeth yn gwrthod caniatáu cysylltiad o dan a106 ar sail diffyg cynhwysedd, gall y gweithredwr apelio i Ofwat. Gallwn wrthod cyhoeddi trwydded gweithgarwch gollwng dŵr neu weithgaredd dŵr daear mewn amgylchiadau o'r fath.

Ar gyfer gollyngiadau newydd, bydd angen i chi ddangos y gwahaniaeth mewn cost rhwng cysylltu â'r garthffos fudr a chost prynu a gosod eich cyfleuster trin arfaethedig. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fanylion y canlynol:

#### Costau cysylltu â'r garthffos fudr

- Pibell garthffos;
- Cyfarpar pwmpio, pwmp, os oes angen;
- Palu lleiniau ymyl ffordd, ffyrdd neu dir ar y ffordd i'r garthffos;
- Costau cau ffyrdd, os oes angen;
- Hawddfrentiau cyfreithiol i groesi tir, os bydd angen;
- Cysylltiad cychwynnol a thaliadau blynyddol gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth.

#### Costau cyfleuster trin arfaethedig

- Prynu;
- Gosod;
- Cynnal a chadw;
- Ffioedd cynhaliaeth blynyddol Asiantaeth yr Amgylchedd (nid yw ffioedd cynhaliaeth yn berthnasol ar gyfer gollyngiadau carthffrwd ddomestig wedi'i thrin o bum metr ciwbig (5m<sup>3</sup>) neu lai bob dydd).

Rhaid i'ch cyfiawnhad hefyd gynnwys manylion unrhyw rwystrau ffisegol: er enghraifft, ffyrdd, rheilffyrdd, afonydd neu gamlesi sy'n rhwystro eich cysylltiad â charthffos.

Os ydych yn gwneud cais am ollyngiad sy'n bodoli eisoes, gallwch roi hyn fel rheswm dros beidio â chysylltu â charthffos gyfagos, ond rhaid i chi roi dyddiad gosod y cyfleuster trin mor gywir ag y gallwch.

Ceir canllawiau ychwanegol ar gysylltu â charthffosydd yn 'Nodyn Canllaw Technegol 7.01 Sut mae cydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol a chanllawiau technegol ychwanegol ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr a dŵr daear (gollwng yn y tarddle)'.

Maent ar gael drwy ffonio 0300 065 3000 neu drwy eu lawrlwytho o'n tudalennau canllawiau ar ein gwefan.

## 4 Faint ydych chi am ei ollwng?

**4a** Mae llif tywydd sych ond yn gymwys i ollyngiadau carthffrwd a all gynnwys dŵr glaw - fel arfer y gwaith trin carthion a weithredir gan ymgymwrwr dŵr. Ni ddylid cynnwys dŵr glaw mewn systemau trin carthion a weithredir yn breifat. Mae 'Nodyn Canllaw Technegol 7.01' yn disgrifio sut y caiff llif tywydd sych ei gyfrifo a sut y caiff cydymffurfiaeth ei hasesu.

**4b** Dyma'r cyfaint mwyaf a gaiff ei ollwng mewn unrhyw ddiwrnod. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dewis cyfaint y gallwch gydymffurfio ag ef bob amser. Ar gyfer rhai gollyngiadau carthffrwd a rhai gollyngiadau elifion masnach, rhaid i chi ddefnyddio 'Code of Practice: Flows and Loads 3' y diwydiant i gyfrifo eich ffrwd ddyddiol fwyaf.

Cyhoeddir 'Flows and Loads 4 – Sizing Criteria, Treatment Capacity for Small Wastewater Treatment Systems (Package Plants)' gan British Water (ISBN: 978-1-903481-10-3).

**4c** Dyma'r gyfradd enydaidd uchaf y gollyngir yr elifiant arni. Gall fod yn gyfradd pwmpio uchaf, er enghraifft, mewn gollyngiadau wedi'u pwmpio o ddŵr chwarel, neu'r llif damcaniaethol mwyaf o bibell gwymp-borthedig o lagynau a ddefnyddir i gydbwysu gollyngiadau sy'n dibynnu ar lawiad. Ar gyfer gollyngiadau sy'n dibynnu ar lawiad, dylai hyn fod yn seiliedig ar y digwyddiad storm 1 mewn 30 mlynedd fel arfer.

**4d** Mewn elifiant cymysg, hwn fydd cyfaint dyddiol uchaf holl elfennau sy'n dibynnu ar lawiad yr elifiad cymysg.

**4e** Mewn elifiant cymysg, fel arfer, bydd hwn yn seiliedig ar y digwyddiad storm 1 mewn 30 mlynedd.

**4f** Os ydych yn gwneud cais am fwy nag un gollyngiad elifion, gallwch gyfeirnod i'r un ddogfen yma ar gyfer mwy nag un ffurflen rhan B6.

## 5 Gollyngiadau carthion ysbeidiol

Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd yn y dogfennau 'Sut mae cydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol' a 'Canllaw technegol ychwanegol 7.01 ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr a dŵr daear (gollwng yn y tarddle)'.

**5f a h** Os caiff eich elifiant ei sgrinio, rhowch y llifau capasiti sgrin uchaf sy'n cael eu sgrinio. Ar gyfer prosesau sgrinio hollt, rhowch fanylion y llifoedd uchaf lle y cynhelir proses sgrinio rwylllog yn ogystal â'r llif uchaf lle y cynhelir y broses sgrinio bar.

**5e a g** Os caiff eich elifiant ei sgrinio, rhowch fanylion maint y sgrin mewn milimetrau a math (sgrin bar, rhwyll neu hollt.) O yw eich elifiant o orlif carthion cyfun ac na chaiff ei sgrinio, rhowch 'Dd/G' yn y llinell ateb i'r cwestiwn hwn ac atebwch gwestiwn 5j.

## 6 Sut y caiff yr elifiant ei drin?

**6b** Rhaid i chi ddewis pob elfen o broses eich triniaeth yn y drefn y cânt eu cynnal a'u rhoi yn Nhabl 2.

Rhaid i chi ysgrifennu'r rhif cod ar gyfer y math o driniaeth a disgrifiad safonol y driniaeth. Rhestrir y disgrifadau mwyaf cyffredin isod. Os ydych yn defnyddio un o'r rhain, gallwch roi rhif ac enw'r math o'r rhestr isod yn Nhabl 2. Os byddwch yn dewis 'arall', rhaid i chi sicrhau bod eich disgrifiad byr yn egluro proses y driniaeth yn ddigonol.

Cod	Triniaeth
99	Dim
32	Dim angen triniaeth - dyluniad peirianyddol da
14	Dyfrhau tir
06	Tanc septig
11	Sgrinio
12	Mwydo
10	Gwaddodi mewn lagŵn
16	Seiffron olew
19	cywiriad pH
09	Gwaddodi sylfaenol
SB	Gwaith trin pecynnol sy'n cyrraedd BS 12566

29	Gwaith trin pecynnol
01	Hidliad biolegol
02	Biolegol, cyfradd uchel
24	Ffos ocsidiad
04	Cemegol
28	Arnofiad
31	Llaid actifedig
30	Gwely cyrs
33	Hidlo trwy bilen
03	Biolegol trydyddol
08	Cemegol - tynnu ffosffad
17	Clorineiddiad
18	Dadglorineiddiad
20	Carbon actifedig
21	Hidlo drwy dywod
22	Dadheintio UV

Arall

**6c** Rhaid i chi roi manylion ansawdd y gollyngiad elifion terfynol y mae'r system drin gyffredinol wedi'i dylunio i'w gyflawni. Dylai hyn fod ar ôl holl gamau'r driniaeth rydych wedi'u rhestru yn Nhabl 2.

Ar gyfer gollyngiadau carthffrwd domestig wedi'u trin, rhaid i hyn gynnwys galw am ocsigen biocemegol, solidau mewn daliant ac amonia. Ar gyfer gollyngiadau elifion masnach, dylai'r sylweddau adlewyrchu'r sylweddau sy'n debygol o fod yn bresennol yn y gollyngiad elifion terfynol.

## 7 Beth fydd yn yr elifiant?

**Os ydych wedi ateb yn gadarnhaol ar gyfer unrhyw un o'r cwestiynau o 7a i 7d, rhaid i chi roi manylion, gan ddefnyddio'r penawdau yn y tabl yn 7d, ar ddalen ar wahân.** Rhaid i chi hefyd anfon unrhyw wybodaeth ar samplau a allai fod gennyh.

Ar gyfer gollyngiadau i ddŵr wyneb: bydd angen i chi benderfynu p'un a yw eich gollyngiad yn debygol o gynnwys unrhyw un o'r sylweddau a restrir yn yr 'Horizontal Guidance H1 Environmental Risk Assessment Annex D, Appendix A' neu unrhyw sylwedd niweidiol arall. Maent ar gael drwy ffonio 0300 065 3000 neu drwy eu lawrlwytho o'n tudalennau canllawiau ar ein gwefan.

Ar gyfer gollyngiadau ar dir neu i dir: y ddau gategori o sylwedd y mae angen i chi eu hystyried yw sylweddau peryglus a llygryddion nad ydynt yn beryglus fel y disgrifir isod.

Sylweddau peryglus yw'r rhai mwyaf niweidiol a rhaid eu hatal rhag mynd i mewn i ddŵr daear. Mae hyn yn cynnwys yn benodol y sylweddau neu'r grwpiau canlynol pan fyddant yn wenwynig, yn barhaol ac yn debygol o fiogronni:

- cyfansoddion a sylweddau organohalogen a all ffurfio cyfansoddion o'r fath yn yr amgylchedd dyfrol;
- cyfansoddion organoffosfforws;
- cyfansoddion organotin;
- sylweddau a chymysgeddau (neu sgil-gynhyrchion cysylltiedig) y profwyd bod ganddynt nodweddion carcinogenig neu fwtagenig neu nodweddion a allai effeithio ar swyddogaethau steroidogenig, thyroid, atgynhyrchu neu swyddogaethau eraill sy'n gysylltiedig ag endocrin yn yr amgylchedd dyfrol neu drwy'r amgylchedd dyfrol;
- metelau a'u cyfansoddion (yn enwedig mercwri a chadmiwm);
- hydrocarbonau parhaus a sylweddau gwenwynig organig parhaus a biogronnol;
- syanidau;
- arsenig a'i gyfansoddion; a
- bywleiddiaid a chynhyrchion diogelu planhigion.

Nid yw llygryddion nad ydynt yn beryglus mor niweidiol ond gallant achosi llygredd os byddant yn cael eu cyflwyno neu eu gollwng i ddŵr daear mewn ffordd nad yw'n rheoledig. Mae llygrydd nad yw'n beryglus yn cyfeirio at unrhyw lygrydd ac eithrio sylwedd peryglus.

Mae angen i ni wybod ym mhob achos p'un a yw gollyngiad i neu ar dir yn debygol o gynnwys sylweddau peryglus.

Dim ond gwybodaeth am lygryddion penodol nad ydynt yn beryglus a gaiff eu gollwng i dir lle nad yw hyn yn amlwg fel arfer o'r disgrifiad cyffredinol o'r elifiant y mae angen i ni ei chael. Er enghraifft, ni fyddai angen i ni gael dadansoddiad o gynnwys llygrydd nad yw'n beryglus carthion oni ddisgwylir y bydd ganddo grynodiadau anarferol o uchel o lygrydd penodol. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu gollwng elifiant masnach neu elifiant arall, bydd angen i chi nodi'r prif gyfansoddion llygru nad ydynt yn beryglus.

Mae Atodiad A i Atodlen D yr *Horizontal Guidance* yn gyfeirnod defnyddiol ar gyfer gollyngiadau i neu ar dir er bod y ddogfen hon wedi'i bwriadu ar gyfer gollyngiadau i ddŵr wyneb ac mae'n dangos safonau ansawdd amgylcheddol dŵr wyneb. Mae'r rhestr hon yn cynnwys sylweddau peryglus a llygryddion nad ydynt yn beryglus a all beri pryder o ran dŵr daear, felly os bydd eich gollyngiad yn cynnwys y sylweddau hyn, dylech ddweud wrthym. Fodd bynnag, bydd angen i chi ystyried p'un a oes unrhyw sylweddau peryglus eraill neu lygryddion eraill nad ydynt yn beryglus yn eich elifiant y mae angen i chi eu datgan.

Ceir rhagor o fanylion ar beth yw sylwedd peryglu yn <http://www.wfduk.org/jagdag/>

Gall fod sylweddau yn bresennol yn y gollyngiad oherwydd:

**7a** Ar gyfer cwmnïau dŵr yn unig, gall fod ganddynt awdurdod i ollwng sylwedd i'r rhwydwaith carthffosiaeth i fyny'r afon o'r gwaith trin carthion.

**7b** Aallwch ychwanegu cemegion i'r elifiant yn ystod y broses drin; er enghraifft, halenau haearn er mwyn dileu ffosffad. Neu, gall fod sylweddau yn bresennol yn eich elifiant o ganlyniad i weithgareddau ar eich safle; er enghraifft, gall fod cronïwm yn bresennol o elifion mewn gweithfeydd swp-brosesu concrid.

Gall eich gollyngiad fod yn debygol o gynnwys sylweddau na chânt eu dangos yn Atodiad A.

**7c** Rydych wedi dadansoddi eich elifiant ac wedi canfod sylweddau yn bresennol yn y gollyngiad.

**7d** Nid yw'r rhestr yn yr *Horizontal Guidance H1 Environmental Risk Assessment*, Atodlen D, Atodiad A yn gynhwysfawr ac os byddwch yn derbyn, ychwanegu neu ganfod unrhyw sylweddau peryglus eraill (yn cynnwys sylweddau peryglus neu lygryddion perthnasol nad ydynt yn beryglus fel y disgrifir uchod) bydd angen i chi ddweud wrthym.

## 8 Trefniadau monitro

**8a** Dyma'r pwynt samplu a ddefnyddir ar gyfer gollyngiadau sy'n cynnwys dŵr a dynnwyd a ddychwelir; er enghraifft ffermydd pysgod a dŵr oeri. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gosod terfyn cymharol er mwyn asesu cydymffurfiaeth yn ei erbyn. Mae'n ofynnol hefyd ar gyfer safleoedd trin carthion mwy sy'n bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Mae'n golygu y gellir cael sampl gyfansawdd o'r mewnlifiant i'r gwaith trin carthion. Ceir rhagor o ganllawiau ar y Gyfarwyddeb ar ein tudalennau canllawiau ar ein gwefan. Rhaid i chi ddarparu dull parhaol o gael mynediad i bwyntiau monitro.

**8b** Dyma'r pwynt samplu a ddefnyddir i asesu cydymffurfiaeth ag unrhyw derfynau allyru ansawdd dŵr ar eich trwydded. Rhaid i chi sicrhau ei fod yn eich galluogi i gael sampl gynrychioliadol o'r gollyngiad. Rhaid i chi hefyd sicrhau bod holl gyfansoddion y gollyngiad yn pasio drwy'r pwynt samplu bob amser. Dim ond pan na chaiff unrhyw elifiant arall ei ychwanegu cyn y pwynt hwn y gall y pwynt samplu fod yn fan lle mae'r elifiant yn cwrdd â'r amgylchedd sy'n ei dderbyn. Rhaid i chi ddarparu dull parhaol o gael mynediad i bwyntiau monitro.

### Nodyn ar gyfer gollyngiadau presennol bach i dir yn unig

Os ydych yn gwneud cais am drwydded ar gyfer gollyngiad presennol o garthffrwd sydd wedi cael ei thrin nad yw'n fwy na 5 metr ciwbig y dydd i dir (er enghraifft, defnyddio cae draenio) lle na cheir pwynt samplu eisoes, ni fyddwn yn disgwyl i chi ddarparu un.

**8c** Mae hwn yn ofyniad ar gyfer safleoedd trin carthion mwy sy'n bodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Mae'n golygu y gellir cael sampl gyfansawdd o'r elifiant terfynol o'r gwaith trin carthion. Ceir rhagor o ganllawiau ar y Gyfarwyddeb ar ein gwefan. Rhaid i chi ddarparu dull parhaol o gael mynediad i bwyntiau monitro.

**8d** Os oes gan eich elifiant uchafswm cyfaint o 50 metr ciwbig y dydd neu lai, nid oes angen i chi gwblhau cwestiynau d, e nac f.

Os ydych yn rhan o'r categori hwn, dylech nodi 'Dd/G' yn y llinell ateb i'r cwestiwn hwn.

Dyma fydd lleoliad eich cyfarpar monitro llif lle caiff cydymffurfiaeth â'r derfynau cyfaint ar eich trwydded ei hasesu.

**8e** Ceir rhagor o ganllawiau yn 'Sut mae cydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol' a 'Canllaw technegol ychwanegol 7.01 ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr a dŵr daear (gollwng yn y tarddle)'. Maent ar gael drwy ffonio 0300 065 3000 neu drwy eu lawrlwytho o'n tudalennau canllawiau ar ein gwefan.

**8f** Dim ond ar gyfer gollyngiadau sy'n mynd drwy ryw fath o broses ddiheintio y mae angen y math hwn o bwyt monitro. Er enghraifft, diheintio oson neu uwchfioled, hidlo drwy bilen ac ati.

**8g** Rhaid i chi anfon map neu gynllun atom:

- sy'n A4 neu fwy;
- sydd ar raddfa o 1:10,000 (tua 6 modfedd i 1 filltir);
- sy'n dangos yn glir i ba gyfeiriad y mae'r Gogledd.
- Dylai'r cynllun ddangos:
- yr eiddo sy'n gollwng yr elifiant;
- y safle mewn perthynas â'r ardal leol;
- unrhyw gyrsiau dŵr, ffynhonnau, ffrydiau neu ddyfrdyllau ar y safle (neu o fewn 50 metr iddi).

Dylech hefyd farcio'r map i ddangos y pwyntiau:

- lle y caiff elifiant ei olwg i'r dyfroedd wedi'u rheoli;
- lle y gellir cymryd samplau o elifiant a mewnlifiant yn awtomatig neu â llaw (os oes angen);
- lle y caiff llif neu ansawdd ei fesur (os oes angen).

Gallwch gyflwyno mwy nag un cynllun os oes angen.

## 9 Cynllun rheoli allyriadau sylweddau nas rheolir gan derfynau allyru

Noder: Os byddwch yn gweithredu cyfleuster trin carthion sydd ond yn derbyn carthion domestig ac nad yw'n gollwng mwy na 20 metr ciwbig y dydd, nid oes angen i chi lenwi'r adran hon.

**9a** Bydd eich trwydded yn cynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi sicrhau nad yw eich gweithgaredd a ganiateir yn achosi llygredd drwy allyru sylweddau na chânt eu rheoli gan derfynau allyru yn eich trwydded. Gallwch ddewis llunio cynllun rheoli allyriadau er mwyn lleihau'r risg o lygredd ac os byddwch wedi gwneud hynny, gallwch ei gyflwyno gyda'ch cais.

Ceir canllawiau ar yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i fodloni'r amod hon ac amodau eraill a all fod wedi'u cynnwys yn eich trwydded amgylchedd yn 'Sut mae cydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol'. Mae'r ddogfen hon ar gael drwy ffonio 0300 065 3000 neu drwy ei lawrlwytho ar ein tudalennau canllawiau ar ein gwefan.

**9b** Ymysg yr enghreifftiau o amgylchiadau lle y gellir llunio cynllun rheoli allyriadau er mwyn lleihau'r risg o lygredd drwy allyru sylweddau heb derfynau allyru mae'r canlynol:

- lle rydych yn defnyddio proses cyfwyno polymerau er mwyn gwella proses drin ac ni chaiff unrhyw derfynau allyru ar gyfer y polymer eu nodi yn y drwydded;
- lle rydych yn defnyddio proses cyflwyno cemegion untro mewn amgylchiadau lle nad oes angen i'r terfyn allyru ar gyfer y sylwedd sy'n cael ei gyflwyno gael ei gynnwys yn y drwydded;
- cynlluniau rheoli ffermydd pysgod sy'n cwmpasu'r defnydd achlysurol o gemegau proffylactig yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd neu ragnodi milfeddygol.

## 10 Meini prawf dylunio

Ceir rhagor o ganllawiau yn 'H1 Risk Assessment Horizontal Guidance Note H1 Annex E - Surface Water Discharges (complex)' a 'H1 Risk Assessment Horizontal Guidance Note H1 Annex J - Groundwater'. Maent ar gael drwy ffonio 0300 065 3000 neu drwy eu lawrlwytho o'n tudalennau canllawiau ar ein gwefan.

Rydym yn argymhell yn gryf y dylech gysylltu â ni i gael cyngor cyn cyflwyno cais sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gynnal asesiad.

**10a** Ar gyfer gollyngiadau elifion terfynol o gwmni dŵr WwTW, neu ollyngiadau carthion ysbeidiol, rhaid i chi gyflwyno adroddiad modelu carthffos. Ni allwn wneud y gwaith hwn ar eich rhan, ond gallwn gynnig cyngor ar ba waith asesu y mae angen ei wneud.

**10b** Ar gyfer gollyngiadau i lynnoedd, dyfroedd arfordirol neu ddyfroedd ymdrochi, rhaid i chi gyflwyno adroddiad modelu. Ni allwn gynnal asesiadau ar eich rhan, ond gallwn gynnig cyngor ar ba waith asesu y mae angen ei wneud. Os nad oes gennych y sgiliau i wneud hyn eich hun, yna bydd angen i chi gynnwys ymgynghorydd i roi cyngor i chi a chynnal yr asesiad.

**10c** Ar gyfer gollyngiadau i afon ddilanw, yn gyffredinol, os byddai'n well gennych wneud hynny, gallwch roi manylion y gollyngiad rydych yn dymuno ei wneud, a byddwn yn cynnal asesiad risg ar lefel sylfaenol i chi. Gellir darparu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud hyn ar y ffurflen gais, ond efallai y bydd angen i chi ychwanegu manylion perthnasol eraill. Os daw ein hasesiad i'r casgliad na allwn dderbyn y gweithgaredd arfaethedig, efallai y byddwn yn gofyn i chi roi rhagor o dystiolaeth drwy gynnal asesiad risg ar lefel uwch eich hun gan ddefnyddio canllawiau Atodlen E H1, neu efallai y byddwn yn dweud wrthy'ch fod y gollyngiad arfaethedig yn annerbyniol. Os ydych yn bwriadu cynnal yr asesiad eich hun, efallai y bydd angen i chi gysylltu â ni i gael gwybodaeth neu gyngor yn gyntaf.

**10d** Ar gyfer gollyngiadau i ddŵr daear, rhaid i chi gyflwyno asesiad risg meintiol dŵr daear. Ni allwn gynnal asesiadau ar eich rhan, ond gallwn gynnig cyngor ar pa waith asesu y mae angen ei wneud. Os nad oes gennych y sgiliau i wneud hyn eich hun, yna bydd angen i chi gynnwys ymgynghorydd i roi cyngor i chi a chynnal yr asesiad.

Ar gyfer cynlluniau adfer dŵr daear, rhaid i chi anfon strategaeth adfer safle-benodol atom y mae Tîm Gwyddor Daear Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno arni. Dylai hyn gynnwys:

- Model cysyniadol;
- Asesiad risg safle-benodol meintiol;
- Targedau adfer safle-benodol;
- Manylion y crynodiadau o halogydd a geir o fewn y gollyngiad arfaethedig.

## **11 I ble y bydd yr elifiant yn gollwng?**

Fel arfer, caiff elifion eu gollwng i un lleoliad mewn un amgylchedd derbyn.

Fodd bynnag, os gellir gollwng eich elifiant i fwy nag un lleoliad o fewn un amgylchedd derbyn, er enghraifft, dau bwynt gollwng gwahanol ar afon ddilanw, dylech gwblhau'r atodiad priodol a sicrhau eich bod yn rhoi'r holl fanylion perthnasol ar gyfer pob pwynt gollwng y gellir gollwng yr elifiant drwyddo. I wneud hyn, bydd angen i chi gwblhau atodiad perthnasol ar gyfer pob pwynt gollwng ar wahân ar gyfer elifiant ac egluro unrhyw amgylchiadau gwahanol ar gyfer defnyddio pob un.

Os yw eich elifiant yn gollwng i fwy nag un lleoliad mewn amgylchedd derbyn gwahanol, er enghraifft, i ddyfrdwl neu i afon ddilanw ( o dan amgylchiadau gwahanol), bydd angen i chi gwblhau'r holl atodiadau perthnasol ar gyfer pob pwynt gollwng ac egluro'r amgylchiadau gwahanol ar gyfer defnyddio pob un.

Noder: Mae angen i chi sicrhau eich bod wedi cael yr holl ganiatadau angenrheidiol i ollwng gan dirfeddianwyr, er enghraifft yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, os byddwch am ollwng i gamlas a reolir ganddi.

Llanwch yr atodiad perthnasol ar gyfer pob elifiant a ollyngir.

## **12 Rhagor o wybodaeth gennych chi**

Rhowch unrhyw wybodaeth bellach sy'n angenrheidiol ar gyfer eich cais yn eich barn chi. Er enghraifft, a oes unrhyw wybodaeth berthnasol am y safle neu fath o elifiant nad ydym wedi gofyn amdani rywle arall ar y ffurflen?

### **Atodiad 1 - Gollyngiadau i afon ddilanw, ffrwd neu gamlas**

**2** Dyma'r lleoliad lle mae'r elifiant yn gadael y bibell cludo elifion ac yn mynd i mewn i sianel yr afon, y cwrs dŵr neu'r ffrwd. Weithiau, caiff gollyngiadau eu gwneud drwy garthffosydd dŵr wyneb. Yn yr achos hwn, yr allfa fydd y pwynt lle mae'r garthffos dŵr wyneb yn cwrdd â sianel yr afon, y cwrs dŵr neu'r ffrwd.

**3** Fel arfer, dangosir yr enw ar fap Arolwg Ordnans. Os nad oes enw ar y dŵr derbyn, nodwch enw'r cwrs dŵr y mae'n llifo iddo; er enghraifft, 'un o lednentydd afon Tafwys'.

**5** Mae'r rhan fwyaf o elifion yn mynd ar hyd pibell bwrrpasol a chânt eu gollwng drwy allfa i ddŵr derbyn. Mewn rhai achosion, gellir gollwng elifion i garthffos dŵr wyneb sy'n eiddo i rywun arall cyn iddynt gael eu gollwng i ddŵr derbyn. Os felly, rhaid i chi roi'r cyfeirnod grid lle mae eich gollyngiad yn mynd i mewn i'r garthffos dŵr wyneb.

**6** Mae'n well gennym weld elifiant yn gollwng i gyrsiau dŵr sy'n llifo drwy'r flwyddyn. Gall gollwng i gwrs dŵr sych achosi i'r elifiant gronni.



## Atodiad 2 - Gollyngiadau i afon lanw, ffrwd lanw, aber neu ddyfroedd arfordirol

**2** Dyma'r lleoliad lle mae'r elifiant yn gadael y bibell cludo elifion ac yn myn i mewn i sianel yr afon, yr aber neu'r dyfroedd arfordirol. Weithiau, caiff gollyngiadau eu gwneud drwy garthffosydd dŵr wyneb. Yn yr achos hwn, yr allfa fydd y pwynt lle mae'r garthffos dŵr wyneb yn cwrdd â sianel yr afon, yr aber neu'r dŵr arfordirol.

**3** Fel arfer, dangosir yr enw ar fap Arolwg Ordans. Os nad oes enw ar y dŵr derbyn, nodwch enw'r cwrs dŵr y mae'n llifo iddo; er enghraifft, 'un o lednentydd afon Tafwys'.

**5** Mae'r rhan fwyaf o elifion yn mynd ar hyd pibell bwrsasol a chânt eu gollwng drwy allfa i ddŵr derbyn. Mewn rhai achosion, gellir gollwng elifion i garthffos dŵr wyneb sy'n eiddo i rywun arall cyn iddynt gael eu gollwng i ddŵr derbyn. Os felly, rhaid i chi roi'r cyfeirnod grid lle mae eich gollyngiad yn mynd i mewn i'r garthffos dŵr wyneb.

**6** Mae marc y cymedr distyll gorllanw ar fapiau Arolwg Ordans fel arfer. Lle y bo'n rhesymol bosibl, mae'n well gennym i ollngiadau gael eu gwneud islaw'r pwynt hwn er mwyn atal elifion rhag llifo ar draws traethau, gwelyau afonydd wedi'u hamlygu neu draethellau lleidiog ac ati.

**7** Dewiswch 'bibell agored' os yw'r elifiant yn mynd i mewn i'r afon lanw, yr aber neu ddŵr arfordirol o bibell. Byddwn wedi dweud wrthyf os bydd angen gwasgarwr yn ystod trafodaethau cyn gwneud cais.

**8** Mae angen i ni gael gwybod pa fath o wasgarwr ydyw, ei rif, ei leoliad a'r cyfaint y bydd yn ei drin. Dylai eich dyluniad fod wedi'i sefydlu drwy'r broses modelu arfordirol rydych wedi'i chynnal.

## Atodiad 3 - Gollyngiadau i lyn neu bwll

Defnyddiwch yr atodiad hwn pan fyddwch yn gollwng eich elifiant i mewn i lyn neu bwll sy'n bodoli eisoes.

Nid oes angen trwydded ar gyfer gollyngiad i lyn neu bwll nad yw'n gollwng i mewn i afon neu gwrs dŵr neu bwll arall sy'n gollwng i mewn i afon neu gwrs dŵr oni fydd Hysbysiad wedi'i roi o dan baragraff 5 o Atodlen 21 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Os nad ydych yn siŵr p'un a oes angen trwydded arnoch ar gyfer gollyngiad i mewn i bwll neu lyn, dylech gysylltu â ni ar 0300 065 3000.

**2** Dyma'r lleoliad lle mae'r bibell elifiant yn cyrraedd y llyn neu'r pwll.

**3** Fel arfer, dangosir yr enw ar fap Arolwg Ordans.

**5 i 7** Os nad ydych yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwn, rhowch 'Anhysbys'.

## Atodiad 4 - Gollyngiadau i dir

Noder: Ar gyfer ceisiadau am drwydded gollwng carthion ar gyfer hyd at 15 metr ciwbig y dydd i dir, byddwn yn cynnal asesiad cychwynnol ar eich rhan. Os bydd eich gollyngiad yn methu'r asesiad hwn ac na allwn ddatrys y mater gan ddefnyddio ein data ein hunain, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth a gallwn ofyn i chi gynnal eich ymchwiliad a'ch asesiad risg eich hun yn seiliedig ar ein canllawiau 'EPR H1 Environmental Risk Assessment Annex (j)' a'n modiwl cysylltiedig ar Asesiad Risg Dŵr Daear ar gyfer Gollyngiadau Elifion wedi'u Trin i Systemau Ymdreiddio.

Byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnal eu hasesiadau eu hunain yn unol â'r canllawiau hyn ar gyfer gollyngiadau mwy na 15 metr ciwbig y dydd o garthion ac ar gyfer pob gollyngiad masnach a gollyngiad elifiant arall.

**2** Dyma'r lleoliad lle mae'r elifiant o'r system drin yn cyrraedd y system ymdreiddio.

**3** System ymdreiddio yw ardal gyfyngedig o dir wedi'i diffinio'n glir sydd wedi'i dylunio i alluogi hylif i ddraenio i'r pridd o amgylch. Fel arfer, mae'n cynnwys system o bibellau â thyllau o dan yr wyneb. Byddwn yn disgwyl i unrhyw system ymdreiddio newydd gael ei hadeiladu yn unol â BS 6297:2007 + A1:2008.

**5** Byddwn yn disgwyl i unrhyw system ymdreiddio newydd gael ei hadeiladu yn unol â BS 6297:2007 + A1:2008. Os nad yw eich system chi wedi'i hadeiladu yn unol â'r safon hon, rhaid i chi gyflwyno'r manylion canlynol:

- lleoliad y system ymdreiddio;
- arwynebedd arwyneb;
- dyfnder;
- y deunyddiau adeiladu a ddefnyddiwyd;
- lefel y gwaelod mewnol mewn perthynas â'r lefel trwythiad.

**6** Defnyddiwch y wybodaeth ganlynol i'ch helpu i gynnal prawf trylifiad (yn gymwys i systemau ymdreiddio newydd yn unig). Dylech osgoi cynnal y prawf hwn mewn amodau tywydd eithriadol fel sychder, rhew a glaw trwm.

- a Cloddiwch o leiaf ddau dwll 300 mm sgwâr (tri yng Ngogledd Iwerddon) i ddyfnder o 300 mm islaw lefel arfaethedig y gwaelod mewnol (gwaelod y bibell) y bibell ymdreiddio a'u gosod yn gyfartal ar hyd llinell arfaethedig y system ddyfrhau o dan yr wyneb.
- b Llenwch bob twll â dŵr i ddyfnder o 300 mm o leiaf a gadewch iddo dryddiferu dros nos.
- c Drannoeth, llenwch bob twll â dŵr i ddyfnder o 300 mm o leiaf ac amserwch faint o eiliadau y mae'n ei gymryd i'r dŵr dryddiferu i ffwrdd o fod yn dri chwarter llawn i fod yn chwarter llawn (h.y. dyfnder o 150 mm).
- d Rhannwch yr amser hwn â 150. Mae'r ateb hwn yn rhoi'r amser cyfartalog mewn eiliadau (Vp) sy'n ofynnol i'r dŵr ostwng 1 mm.
- e Dylid cynnal y prawf o leiaf deirgwaith gydag o leiaf ddau dwll prawf. Dylid cymryd y ffigur cyfartalog o'r profion. Dyma'r gwerth trylifiad Vp (mewn eiliadau).
- f Gellir cyfrifo'r ffigur cyfartalog ar gyfer y gwerth trylifiad (Vp) drwy gyfansymio'r holl werthoedd a rhannu hyn â nifer y gwerthoedd a ddefnyddiwyd.
- g Dim ond pan fydd profion trylifiad yn dynodi gwerthoedd cyfartalog Vp rhwng 15 a 100 a phan fydd yr asesiad cychwynnol o'r profion tyllau treial wedi bod yn ffafriol y dylid defnyddio'r gwarediadau o'r cae draenio.
- h Mae'r isafswm gwerth o 15 yn sicrhau na all elifiant heb ei drin drylifo'n rhy gyflym i ddŵr daear.
- i Pan fydd Vp uwchlaw'r terfyn o 100, nid yw'n debygol y ceir triniaeth effeithiol mewn cae draenio gan na fydd digon o amsugniad yn y lleoliad hwn a all arwain at garthion yn cronni ar yr wyneb.
- j Ar gyfer safleoedd domestig, gellir cyfrifo arwynebedd llawr y cae draenio (A mewn metrau sgwâr) sy'n ofynnol o:

$$A = p \times Vp \times 0.25 \text{ ar gyfer tanciau septig}$$

$$A = p \times Vp \times 0.20 \text{ ar gyfer gweithfeydd trin carthion pecynnol}$$

Os mai:

p yw nifer y bobl a wasanaethir gan y tanc (dylai hwn fod yn uchafswm nifer y bobl a allai fyw yn y tŷ).

Vp yw'r gwerth trylifiad a ddisgrifir uchod.

Os oes amheuaeth, gofynnwch i'ch cynghorydd proffesiynol neu swyddog rheoli adeiladau eich awdurdod lleol am gyngor.

**7** Mae'n bwysig ein bod yn gwybod beth yw eich gwerth trylifiad (Vp) (gweler cwestiwn 6 uchod). Mae BS 6297:2007 +A1:2008 yn nodi 'a drainage field for disposal should only be used when percolation tests indicate average values of Vp between 15 and 100.' Mae'r isafswm gwerth o 15 yn sicrhau na all elifiant drylifo'n rhy gyflym i'r tir, gan lygru dŵr daear o bosibl. Os yw eich Vp islaw'r ffigur hwn, gall fod yn ofynnol i chi ychwanegu haen ychwanegol 700 mm o ddyfnder neu dywod bras neu ganolig wedi'i olchi, a'i osod ar bilen geodecstilau athraidd, islaw'r haen ddosbarthu llenwad gronynnol safonol. Bydd angen i chi gytuno i ddylunio eich cae draenio ar sail yr argymhelliad hwn.

**8** Defnyddiwch y cyfrifiadau canlynol:

Ar gyfer gwaith trin carthion:  $Vp(\text{gwerth trylifiad}) \times P(\text{nifer y trigolion}) \times 0.2 = \text{arwynebedd arwyneb}$

Ar gyfer tanc septig:  $Vp(\text{gwerth trylifiad}) \times P(\text{nifer y trigolion}) \times 0.25 = \text{arwynebedd arwyneb}$

## Atodiad 5 - Gollyngiadau ar dir

Defnyddiwch yr atodiad hwn pan fyddwch yn defnyddio ardal waredu wneuthuredig i ollwng eich elifiant ar dir.

**2** Dyma'r lleoliad lle mae'r elifiant o'r system drin yn cyrraedd yr ardal waredu.

**3** Dyma gyfanswm yr arwynebedd a gwmpesir gan y gwely cors/llain laswellt/pwll/gwlyptir.

## Atodiad 6 - Gollyngiadau i ddyfrdwl neu strwythur dwfn arall

Noder: bwriedir i gyfeiriad yma at 'strwythur dwfn arall' gwmpasu unrhyw ddyfrffos arall yn ddwfn yn y ddaear fel hen bwll glo neu nodweddion naturiol fel llyncdyllau. Ynghyd â dyfrdyllau a ffynhonnau, byddent fel arfer yn crynhoi'r gollyngiad mewn un lle yn hytrach na'i ledaenu'n gyfartal ar lefel fas mewn dull system ddraenio

wedi'i pheiriannu. Maent yn peri risg uwch o lygredd dŵr daear ac felly gallwn ofyn i chi ddarparu cyfiawnhad ychwanegol dros ddefnyddio dull gwaredu o'r fath.

Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i'n helpu i asesu eich cais.

**2** Dyma'r lleoliad lle mae'r bibell elifiant yn cyrraedd y ffynnon neu'r dyfrdwl neu strwythur arall.

**4** Dyma'r pellter o lefel y tir (neu lefel gyfeirio arall a nodir gennych) i ben pellaf y dyfrdwl neu ffynnon neu strwythur arall. Os ydych yn bwriadu gollwng i mewn i nodwedd naturiol fel llyncdwl, efallai na fydd gennych ddyfnderoedd penodol ond dylech roi cymaint â phosibl o wybodaeth.

**5** Os ydych yn gollwng i mewn i nodwedd naturiol, atebwch y cwestiwn hwn yn gadarnhaol.

**6** Dyma'r pellter o lefel y tir (neu lefel gyfeirio arall) i lawr i ddyfnder pellaf eich ffynnon neu ddyfrdwl neu strwythur arall sydd wedi'i selio â leinin neu gasin. Fel arfer, byddai'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn cofnodion drilio. Os nad oes sêl, rhowch sero. Os byddwch yn rhoi 'anhysbys' byddwn yn tybio bod y gollyngiad yn cael ei wneud ar hyd yr holl ddyfnder a all effeithio ar eich cais.

**9** Mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym os yw'r ffynnon, dyfrdwl neu strwythur arall yn ehangu'n barhaol neu'n ysbeidiol i'r lefel trwythiad. Os na allwch ateb y cwestiwn hwn, efallai y bydd angen i ni dybio bod hynny'n wir, a all effeithio ar eich cais.

**10** Dyma'r pellter o lefel y tir neu lefel gyfeirio arall i'r lefel uchaf y mae arwyneb y dŵr yn ei chyrraedd yn y ffynnon neu ddyfrdwl.

**11** Dewiswch y categori sydd fwyaf perthnasol i'ch gweithgaredd yn eich barn chi.